



TUAG AT WASANAETH PRAWF DATGANOLEDIG YNG NGHYMRO

CRYNODEB GWEITHREDOL

Casgliad o bapurau gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf

Welsh Centre for Crime and Social Justice

Rhagfyr 2023



Tuag at Wasanaeth Prawf datganoledig yng Nghymru: Casgliad o bapurau gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf – Crynodeb Gweithredol

Awduron: Simon Borja, John Deering, Martina Feilzer, Stewart Field, Gwyn Griffith, Bryn Hall, Brian Heath, Su McConnel, Mike Maguire, Peter Raynor, Ella Rabaiotti a Kate Williams

Diolchiadau: Mae'r papurau hyn wedi elwa o drafodaethau ac adborth gan holl aelodau craidd Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf – gan gynnwys Ian Fox, Rob Jones, Jonathan Evans, yn ogystal ag aelodau cyswllt a'r rhai a oedd yn bresennol yng Nghynhadledd Canolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2023. Hoffai'r grŵp ddiolch yn arbennig i Diana Fologea am ei chymorth gweinyddol parhaus.

Rhagfyr 2023

I weld y cyhoeddiad llawn ac i wneud unrhyw ymholiadau a sylwadau yn ymwneud â gwaith Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, cysylltwch â ni drwy e-bostio probation@wccsj.ac.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, ewch i www.wccsj.ac.uk

ISBN 978-1-909838-69-7

Hawlfraint © Prifysgol De Cymru, 2023

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwr.

Mae Awduron wedi hawlio eu hawl nhw i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Rhagarweiniad

Mae pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf yng Nghymru yn arbenigwyr ar newid; maent yn cefnogi newid ym mywydau pobl, ac yn gweithredu o dan strwythurau sefydliadol sy'n newid yn gyson. Yn ystod yr oddeutu degawd diwethaf, unodd pedair ymddiriedolaeth brawf ar draws De Cymru, Gwent, Dyfed a Phowys a Gogledd Cymru yn Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Cafodd y sefydliad newydd ond llwyddiannus hwn wedyn ei 'rannu' i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a'r

National Probation Service in 2014 and despite efforts by its Welsh leaders to implement this Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn 2014. Er gwaethaf ymdrechion ei arweinwyr yng Nghymru i weithredu'r polisi 'hynod ddiffygiol' hwn, ailymunwyd y ddwy ran yn 2020. Felly, gyda chryn betrusder mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu tystiolaeth ar gyfer symud tuag at fersiwn arall eto o wasanaeth prawf cenedlaethol i Gymru. ¹

Fodd bynnag, pwysleisiodd canfyddiadau Comisiwn Thomas nad yw system cyfiawnder troseddol bresennol Cymru yn gwasanaethu pobl Cymru yn briodol². At hynny, nid yw ailwladoli yn ddigon ynddo'i hun i fynd i'r afael â'r 'gwaddol newid' niweidiol yn y gwasanaeth prawf (Tidmarsh, 2023)³. I ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynllunio ar gyfer datganoli cyfiawnder ac wedi annog Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf i gefnogi trafodaethau ynghylch datblygu gwasanaeth prawf datganoledig i Gymru⁴.

Er bod aelodau Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf yn cydnabod bod mwy o ansicrwydd ynghylch dyfodol y gwasanaeth prawf ymhell o fod yn ddelfrydol, credwn fod angen newid pellach yn y gwasanaeth prawf yng Nghymru y tu hwnt i'r glasbrintiau a'r partneriaethau rhwng gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli er mwyn mynd i'r afael yn sylfaenol â'r gwahaniaethau o ran canlyniadau cyfiawnder troseddol yng Nghymru⁵. Rydym yn cefnogi gwasanaeth prawf datganoledig sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn well ac yn cynnig papurau a allai fod yn ganllaw at adferiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys tri phapur a baratowyd gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf sy'n tynnu ar ystod eang o brofiad mewn ymchwil ac ymarfer yn y gwasanaeth prawf yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys ar lefel ymarferwyr a rheolwyr. Mae'r papurau'n rhannu ein syniadau ac yn tynnu ar y sylfaen dystiolaeth o ran tair agwedd hollbwysig ar gyfer datblygu gwasanaeth prawf datganoledig yng Nghymru, sef, Gwerthoedd ac Egwyddorion, Arfer Effeithiol, a Llywodraethu a Phartneriaethau. Mae themâu cyffredin drwy'r papurau i gyd yn ymwneud â darparu gwasanaeth prawf annibynnol sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng y gweithiwr a'r sawl sydd ar brawf, sy'n rhoi pwyslais ar hawliau, yn defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, adnoddau lleol a phartneriaethau cryf. Mae atal pobl rhag mynd i'r ddalfa yn ganolog, gan gydnabod swyddogaeth bwysig diogelwch cymunedol a dioddefwyr, yn ogystal ag amddiffyn y

¹ Fel y disgrifiwyd gan yr Arolygiaeth Brawf

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/media/pressdatganiadau/2019/03/adroddiad-arolygydd-ariannol-y-gwasanaeth-prawf/>

² Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru | LLYW.CYMRU

³ Mae'r Arolygiaeth yn rhannu'r farn hon

hefyd <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/media/pressreleases/2021/06/probation-unification-is-not-enough-by-itself-to-put-right-the-flaws-of-past-reform/>

⁴ Gweler y cyhoeddiad <https://www.gov.wales/written-statement-preparing-devolution-justice>

⁵ Wedi'i amlinellu'n rhagorol yn llyfr Jones & Wyn Jones 2022, The Welsh Criminal Justice System

cyhoedd. Mae'r papurau, y materion a'r atebion posibl a godwyd ynddynt wedi bod yn destun cryn drafod yng Nghrŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf ac yn ehangach, a fu o gymorth i lunio'r cyhoeddiadau hyn. Fodd bynnag, disgwyliwn i'r sgysiau hyn esblygu ac i gyhoeddiadau pellach ddilyn. Hoffem hefyd gynnwys mwy o arweinwyr ac ymarferwyr prawf yn ein ffordd o feddwl ac wrth ddod i ambell gasgliad, ond deallwn, hyd yma, y bu hyn yn anodd.

Mae Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf wedi nodi pedwerydd maes sydd angen sylw ac ymchwil arbennig – y gyfradd uchel o garcharu yng Nghymru. Nid yw hyn yn cael sylw manwl yn y cyhoeddiad hwn, ond hoffem dynnu sylw at y diweddaraf [Ffeil ffeithiau Carchardai yng Nghymru](#) (Jones, 2023). Mae'n werth nodi bod cyfradd carcharu Cymru yn parhau i fod yn uwch nag unrhyw ran o'r DU, ac mae gwahaniaethau pryderus o ran digartrefedd ymysg cyn-garcharorion, cyfraddau ail-garcharu uwch na Lloegr a gorynrychiolaeth o grwpiau ethnig amrywiol ar brawf ac yn y carchar yng Nghymru. Y pryderon hyn sy'n ein helpu i symud ymlaen – tuag at wasanaeth prawf datganoledig i Gymru.

Cyfeiriadau

Tidmarsh, M. (2023). Legacies of Change: Probation Staff Experiences of the Unification of Services in England and Wales. *British Journal of Criminology*. <https://doi.org/10.1093/bjc/azad042>

Jones, R. (2023). *Prisons in Wales: 2022 factfile*. Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0012/2779833/Prisons-in-Wales-2022-Factfile.pdf

Crynodeb o'r papurau

1. Gwerthoedd ac Egwyddorion

Mae'r papur cyntaf hwn, a baratowyd gan Deering et al, yn rhoi'r diffiniad gorau o waith y gwasanaeth prawf fel 'a public sector task that aims to engage with those under its supervision in a humanistic and supportive manner with a view to encouraging behavioural change, whilst recognising structural and social disadvantage as important factors in offending that need to be addressed' (Deering & Feilzer 2015, t.2). Mae hyn yn gyson â thystiolaeth sy'n awgrymu bod gweithwyr y gwasanaeth prawf yn parhau i fod yn ymrwymedig i sylfaen o werthoedd proffesiynol sy'n pwysleisio pwysigrwydd eu perthynas ag unigolion ar brawf, cred yng ngallu'r unigolyn i newid, ac egwyddorion adsefydlu (Williams 1995; Napo 2006; Deering 2010, 2011; Mawby & Worrall 2013; Deering & Feilzer 2015). Mae'r awduron yn awgrymu y dylai *pob* gwaith prawf - llysoedd, ymyriadau, a gwaith achos - ganolbwyntio fel egwyddor gychwynnol ar ddargyfeirio pobl o'r ddalfa. Dylai gwaith gyda phobl ar brawf fod yn seiliedig ar anghenion troseddegol a chymdeithasol, gan gydnabod cyfrifoldeb unigolyn am ei ymddygiad troseddol, gan osgoi stigmatiddio a gorfodi gwasanaethau. Dylai'r gwasanaeth prawf gefnogi llwybr ymatal unigolyn a chynnig cymorth perthnasol i ymdopi â rhwystrau i ymatal.

Mae'r papur yn cymeradwyo [cyfres o werthoedd craidd ac egwyddorion moesegol y Sefydliad Prawf \(2020\)](#) yn sail gynhwysfawr ar gyfer gwerthoedd ac egwyddorion Gwasanaeth Prawf i Gymru. Er mwyn datblygu system sy'n cefnogi hyn, nododd yr awduron nifer o elfennau hanfodol, gan gynnwys safle'r gwasanaeth prawf fel gwasanaeth cyhoeddus sy'n annibynnol ar y llywodraeth, sy'n gweithio ar y cyd â sefydliadau cyfiawnder troseddol

eraill ac sy'n wasanaeth sydd wedi'i wreiddio'n lleol – cysyniad a archwilir ymhellach ym mhapur 3. Byddai angen i wasanaeth prawf datganoledig roi pwyslais canolog ar arfer sy'n seiliedig ar ymatal er mwyn cynorthwyo i ddatblygu cyfalaf personol a chymdeithasol, sydd â chysylltiadau clir â diwylliant a gwerthoedd y gwasanaeth prawf. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r hyfforddiant, y sgiliau a'r prosesau angenrheidiol i alluogi perthynas broffesiynol effeithiol rhwng y gweithiwr prawf a'r person sy'n destun y gwasanaeth prawf – caiff hyn ei archwilio ymhellach ym Mhapur 2.

Nodir sawl her bosibl i gyflawni gwerthoedd ac egwyddorion. Gall amodau a systemau gwaith effeithio ar gadw gwerthoedd cadarnhaol a blaengar yn y gwasanaeth prawf, gan gynnwys achosion niferus, gostyngiad mewn ymreolaeth a chyswllt â'r rhai a oruchwylir, prosesau monitro gwrth risg a dylanwad diwylliant y gwasanaeth carchardai. Mae angen ystyried yn llawn y tensiynau rhwng yr ystod o ddamcaniaethau (gan gynnwys adsefydlu, ymatal, cosb, a chyfiawnder adferol) a ddefnyddir yn ymarferol gan y Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys ei waith yn y Llysoedd a chyda phartneriaid allweddol. Yn fwy cyffredinol, mae cyfiawnder troseddol (a chymdeithasol) ledled Cymru a Lloegr o dan bwysau dwys ac yn cael ei herio i addasu i newidiadau technolegol, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol. Daw'r awduron i'r casgliad bod angen ystyried cyflawni gwerthoedd craidd mewn gwasanaeth prawf newydd i Gymru ochr yn ochr â datblygiadau cyfiawnder troseddol eraill yn y dyfodol a heriau a nodwyd i blismona a'r llysoedd, yn ogystal â gwasanaethau datganoledig eraill.

2. Arfer Effeithiol ar gyfer Gwasanaeth Prawf Datganoledig

Mae'r ail bapur hwn, gan Raynor & Deering, yn adolygu datblygiadau diweddar mewn arfer effeithiol mewn gwasanaethau prawf i nodi dulliau addawol, a rhai rhwystrau i'w gweithredu. Mae'r awduron yn awgrymu bod y gwasanaeth prawf yn gweithio orau pan gaiff ei ddefnyddio i ddylanwadu'n bersonol a chymdeithasol mewn modd cadarnhaol ar bobl dan oruchwyliaeth, gan fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â throedd. Maent yn cyfeirio at ymchwil ar y sgiliau a ddefnyddir mewn goruchwyliaeth bersonol, sy'n dangos nad 'rheoli troseddwr' yn unig yw goruchwyllo rhywun ond ei fod yn ymyriad ynddo'i hun, a lle mae'r sgiliau a'r dulliau cywir yn cael eu defnyddio mae'n lleihau aildroedd sylweddol (Bonta et al 2011; Raynor et al 2014; Chadwick et al 2015; Raynor a Vanstone 2018). Mae ymchwil rhyngwladol hefyd yn dangos y bydd y rhan fwyaf o staff yn gwella eu sgiliau a'u heffeithiolrwydd gyda hyfforddiant priodol, atgyfnerthu a goruchwyliaeth fedrus reolaidd. Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth ar arfer effeithiol yn cyfeirio at gyfuniad o weithgareddau wedi'u rhaglennu'n dda a goruchwyliaeth bersonol fedrus ymatebol (Raynor 2020). Yn ogystal, mae angen cymorth ar bobl a oruchwylir gan staff y gwasanaeth prawf i gael mynediad at wasanaethau eraill ac mae'r rhan 'eiriolaeth a broceriaeth' o waith y swyddog prawf yn bwysig.

Âr papur rhagddo i amlinellu datblygiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n debygol o fod yn elfen bwysig o ran gwaith effeithiol y gwasanaeth prawf yn y dyfodol. Ym marn yr awduron, y pwysicaf o'r rhain yw: theori ymatal a'i goblygiadau ar gyfer datblygiad ac ymarfer sefydliadol; ailystyried gwerthoedd prawf ar lefelau unigol a sefydliadol; ac ystyriaeth o effaith trawma posibl (bywyd cynnar) ar fywydau ac ymddygiad y rhai y mae'r gwasanaeth prawf yn eu goruchwyllo. Er mwyn rhoi'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn ar waith, maent yn awgrymu'r canlynol fel ffordd bosibl ymlaen. O ran goruchwyllo ac ymyriadau, maent yn ailadrodd yr angen i weithio mewn ffyrdd sy'n gyson ag egwyddorion yr RNR a'r dulliau

ymatal a sut y gellir ystyried y rhain yn ategol, yn hytrach nag yn groes i'w gilydd ac yn annibynnol ar ei gilydd (Maruna & Mann 2019). Er mwyn gweithredu'r dulliau damcaniaethol hyn, byddai angen hyfforddiant ar staff mewn datblygu perthynas a sgiliau goruchwylio. Byddai hyn yn cynnwys yr Arferion Cywiro Craidd (Dowden & Andrews 2004), sgiliau cyfweld a goruchwylio (Raynor et al 2014), Modelu Pro-Gymdeithasol (Trotter 1993) a Chyfweld Cymhellol (Miller & Rollnick 2002).

Mae'r papur yn pwysleisio bod yn rhaid i ymarferwyr gael eu hyfforddi'n briodol, bod ganddynt adnoddau, y cânt oruchwyliaeth glinigol ac yr ymddiriedir ynddynt. At hynny, heb beryglu diogelwch, gellid gwneud swyddfeydd yn fwy agored a chroesawgar, yn hytrach nag yn debycach i ystafelloedd aros carchardai. I gyd-fynd â'r newidiadau hyn, awgrymir y dylid ystyried cyfleusterau cymunedol fel sylfaen ar gyfer gwaith prawf. Mae adran olaf y papur yn ystyried y berthynas rhwng gwasanaethau prawf a dedfrydwyr, a lle gwasanaethau prawf o ran diogelu'r cyhoedd a'u gwaith gyda dioddefwyr. At ei gilydd, mae achos cryf dros roi mwy o sylw i sgiliau, llwythi achosion rhesymol a chydweithio rhyngasiantaethol mewn unrhyw ymgais i wella effeithiolrwydd gwasanaethau prawf. Mae'r un peth yn wir am gyfathrebu rhwng y Gwasanaeth a'r farnwriaeth. Byddai mwy o annibyniaeth weithredol mewn gwasanaeth prawf i Gymru yn caniatáu iddo osod ei flaenoriaethau datblygu ei hun yn hytrach na dibynnu ar y materion a nodwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain.

Mae'r awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol a nodwyd gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf yn cynnwys:

- Mwy o fuddsoddiad mewn datblygu sgiliau goruchwylio unigol gan staff y gwasanaeth prawf
- Gostyngiadau mewn targedau a microreoli, gan alluogi staff i fod yn fwy annibynnol wrth oruchwyllo pobl ar brawf
- Gweithio tuag at lwyth achosion rhesymol, gydag eglurder ynghylch lle mae goruchwyliaeth fwyaf angenrheidiol ac effeithiol a lle gallai fod yn ysgafn neu wedi'i gohirio er mwyn caniatáu mwy o amser i bobl sydd angen hynny
- Datblygu gwell cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng staff y gwasanaeth prawf a dedfrydwyr ynghylch yr angen am adroddiadau cyn-dedfrydu mwy trylwyr
- Newidiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaethau prawf eu llywodraethu i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o'r farnwriaeth ac asiantaethau partner eraill, yn enwedig y rhai a redir gan awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol

Byddai angen rhywfaint o fuddsoddiad ar y dulliau hyn ond dylent ddangos rhai buddion yn gymharol gyflym. Byddai datganoli heb fuddsoddiad sylweddol yn debygol o ddangos budd cyfyngedig yn unig. Dylid hefyd ystyried ail-bwysleisio pwysigrwydd goruchwyliaeth unigol a'r berthynas rhwng pobl ar brawf a'u swyddogion goruchwylio drwy ddeddfwriaeth sy'n adfer y Gorchymyn Prawf fel dewis adeiladol yn lle anfon rhywun i'r carchar.

3. Llywodraethu a Phartneriaethau

Mae'r trydydd papur a'r olaf gan Borja et al, yn nodi y dylai strwythur y gwasanaeth prawf, a sut gaiff y gwasanaeth ei lywodraethu, gefnogi ei swyddogaethau cyflawni allweddol, yn ogystal ag atgyfnerthu pwysigrwydd goruchwylio dedfrydau cymunedol drwy ailgyflwyno elfennau goruchwylio gorchmynion cymunedol. Awgrymir swyddogaeth 'newydd' hefyd i ddatblygu a gwella swyddogaeth y gwasanaeth prawf ar y cam mewn achosion llys lle cedwir rhywun yn y ddalfa gyda'r nod o ddarparu dewisiadau credadwy yn lle gorfod gwneud

hynny. Mae'r papur hefyd yn ystyried strwythurau gwasanaeth prawf a sut gaiff ei lywodraethu gyda rhai canlyniadau dymunol mewn golwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwneud y mwyaf o ddargyfeirio priodol oddi wrth gyfiawnder troseddol gyda chefnogaeth asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill fel yr heddlu, erlyn a'r llysoedd fel y bo'n briodol
- Lleihau faint o bobl a garcherir ac annog y defnydd o sancsiynau cymunedol priodol a chymesur ar gyfer pob trosedd heblaw'r rhai mwyaf difrifol
- Gwella cyswllt â dioddefwyr, dulliau adferol, a diogelwch cymunedol
- Cydgysylltu gwasanaethau cymunedol i greu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau prawf proffesiynol
- Cefnogi cymunedau ac unigolion bregus gan gydnabod y gallant fod yn ddioddefwyr yn ogystal â bod yn gysylltiedig â throseddu
- Cefnogi prosesau ymatal ar gyfer unigolion ar brawf
- Lleihau amllder a difrifoldeb troseddu, a rheoli'r risg o niwed yn effeithiol ac yn briodol
- Darparu gwasanaeth gwrth-ormesol sy'n ystyried hawliau a thrawma, ac sy'n ymateb i anghenion unigol gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r awduron yn cynnig deg egwyddor hanfodol o ran strwythur a llywodraethiant gwasanaeth prawf:

1. Statws proffesiynol ar wahân ar gyfer y gwasanaeth prawf ynghyd â pherthynas waith agos ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill
2. Ymgynghori a chyfathrebu effeithiol a rheolaidd gyda dedfrydwyr/llysoedd.
3. Cysoni a chydweithio â rhanddeiliaid lleol perthnasol i ganiatáu gwasanaethau cydgysylltiedig (sefydliadau trydydd sector a'r sector preifat, yr heddlu, iechyd, carchardai, cyfiawnder ieuencid, tai, cyflogaeth, gwasanaethau cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau)
4. Swyddogion prawf fel gweithwyr proffesiynol cymwys
5. System gwerth proffesiynol cryf
6. Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'i gefnogi gan gysylltiadau cryf trwy bartneriaethau polisi-proffesiynol-academaidd
7. Canllawiau a fframweithiau cyson sy'n caniatáu disgrisiwn lleol yn seiliedig ar berthnasoddd lleol cryf (gan gynnwys y sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat) gan gynnwys strwythurau a pherthnasoddd o ran comisiynu gwasanaethau mewn ffordd deg a thryloyw
8. Dyraniad cyllid sefydlog – fformiwla ariannu statudol
9. Gweithio yn unol ag egwyddorion arfer effeithiol wedi'i lywio gan drawma ac egwyddorion ymatal ac o ganlyniad lleihau erledigaeth a niwed a diogelu cymunedau
10. Cynnig gwasanaethau Cyswllt Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol effeithiol

Ystyriaethau ar gyfer Gwasanaeth Prawf Datganoledig i Gymru

Cynhyrchwyd y papur yn dilyn trafodaeth ar wahanol fodelau ar gyfer gwasanaeth prawf a'r angen i gysoni gwasanaeth prawf datganoledig i Gymru ag elfennau eraill o'r system cyfiawnder troseddol a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i ystyried sut y gellir trosi egwyddorion yn strwythurau a llywodraethu. Fodd bynnag, cododd yr awduron nifer o gwestiynau a sawl cyfyng-gyngor ynghylch dyluniad y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys pa mor lleol yw'r gwasanaeth, rhan awdurdodau lleol a chomisiynu lleol a mewnbwn staff prawf ynghylch cynllun 'o'r gwaelod i fyny'. Mae yna gydnabyddiaeth o flinder newid a phwysigrwydd cynnwys staff y gwasanaeth prawf, partneriaid, a phobl ar brawf mewn

ailgynllunio. Mae'r papur yn awgrymu bod angen i arferion comisiynu lleol ystyried anghenion yr holl randdeiliaid – gwasanaethau cyhoeddus, anghenion y sector preifat a'r trydydd sector – drwy gomisiynu priodol, tryloyw, hygyrch, teg a chynaliadwy. At hynny, codwyd cwestiynau ynghylch trefniadau arolygu a'r ombwdsmon, systemau monitro data ac adrodd, yn ogystal â phwyslais ar bwysigrwydd pontio rhwng pobl ifanc ac oedolion. Er bod angen mwy o feddwl ynghylch hyn, mae'r pwynt olaf hwn hefyd wedi'i ystyried yn y gwaith o ran dechrau datganoli cyfiawnder ieuencid.

Yn olaf, mae'r papur yn cydnabod y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau ar y strwythurau prawf craidd angenrheidiol. Un o'r prif benderfyniadau fyddai swyddogaeth unrhyw Fwrdd Prawf newydd naill ai fel corff goruchwylio, arwain a dylanwadu neu fel un sydd hefyd yn uniongyrchol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau prawf. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i unrhyw system newydd yng Nghymru weithio gyda'r farnwriaeth a'r gwasanaeth carchardai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae angen hefyd ystyried cysylltiadau strwythurol â'r sefydliadau er mwyn caniatáu cyfathrebu effeithiol, ymddiriedaeth, a throsglwyddo llyfn i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar i'r gymuned. Mae'r ffigur isod yn rhoi rhai awgrymiadau ar gyfer cydrannau ac elfennau system Prawf newydd yng Nghymru.



Sylwadau i gloi

Nid yw'n ymddangos bod model a strwythur diweddaraf y gwasanaeth prawf yn gweithio. Gan dynnu ar dros ddeg ar hugain o arolygiadau rhwng Mehefin 2021 a Gorffennaf 2023, daeth y Prif Arolygydd Prawf a oedd yn camu o'i swydd, Justin Russell, i'r casgliad bod y Gwasanaeth Prawf yn ei chael hi'n anodd a bod y gwaith o oruchwyllo pobl ar brawf ddim yr hyn y dylai fod. Mae'n awgrymu bod angen adolygiad annibynnol i ystyried symud y Gwasanaeth Prawf yn ôl i reolaeth leol.⁶ Yn wir, gall y papurau hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf gyfrannu at ailystyried gwaith prawf yng Nghymru ond byddant hefyd yn berthnasol i Loegr. Er nad yw'r papurau hyn yn darparu glasbrint ar gyfer gwasanaeth Prawf Cymru, maent yn cynnig tystiolaeth o'r hyn y dangoswyd sy'n gweithio ym maes llywodraethu ac arfer y gwasanaeth prawf, yn ogystal ag amlygu manteision ac anfanteision rhai penderfyniadau o ran darparu. Tasg i lunwyr polisi yw penderfynu ar ffurf Gwasanaeth Prawf i Gymru gan ymgynghori'n iawn â rhanddeiliaid amrywiol y cyfryw wasanaeth. Eto, mae dysgu sylweddol yn cael ei gynnig yn ein papurau o ymchwil a phrofiad ar dros ganrif o ddatblygiadau ymarfer a llywodraethu'r gwasanaeth prawf. Nid yw'r gyfres hon o bapurau ond yn cynnig cymorth i alluogi datblygiad Gwasanaeth Prawf i Gymru trwy wneud dewisiadau gwybodus sy'n seiliedig ar werth a thystiolaeth i wella diogelwch cymunedol a chyfiawnder cymdeithasol i holl gymunedau Cymru.

Hawlfraint: Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, 2023
I wneud unrhyw ymholiadau a sylwadau am waith Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, cysylltwch â ni drwy e-bostio probation@wccsj.ac.uk.

⁶ [Chief Inspector calls for an independent review of the Probation Service, publishing his final annual report \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://www.justiceinspectorates.gov.uk)